



# Gwŷs Rheithgor

## EICH RHIF RHEITHGOR:

- Cawsoch eich dewis i wasanaethu ar reithgor.
- Dewiswyd eich enw ar hap oddi ar y gofrestr etholwyr.

Rhaid i chi fod yn bresennol i wasanaethu ar reithgor yn:

ar:

Dylech gofrestru gyda'r Rheolwr Rheithgor erbyn: **9am**. Yn ystod eich gwasanaeth rheithgor, efallai y bydd gofyn i chi fynd i Lys arall cyfagos.

## BETH MAE GWŶS RHEITHGOR YN EI OLYGU

Mae gwasanaethu ar reithgor yn ddyletswydd cyhoeddus pwysig. Gofynnir i chi ystyried canlyniad treial troseddol yn Llys y Goron. Byddwch ymhlith llawer o bobl a ddewisir bob blwyddyn i wasanaethu ar reithgor a chewch gyfle i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eich cymuned leol.

- Tudalen 1 a 2 y ffurflen hon yw eich **Gwŷs Rheithgor**. Mae'n dweud wrthy ch ym mhle a pha bryd y byddwch chi'n dechrau'ch gwasanaeth rheithgor.
- Tudalen 3 a 4 yw'r ffurflen **Ymateb i'ch Gwŷs am Wasanaeth Rheithgor**. Bydd y wybodaeth a roddwch yn helpu'r Swyddfa Ganolog Gwysio Rheithgor wrth brosesu'ch ffurflen.

## BETH I'W WNEUD NESAF

- Mae'n bwysig eich bod yn darllen y daflen amgaeedig '**Canllaw i Wŷs Rheithgor**'
- Rhaid i chi lenwi, datgysylltu a dychwelyd tudalennau **3 a 4** i'r Swyddfa Ganolog Gwysio Rheithgor drwy gyfeirio at yr adran '**Sut i Ymateb i'ch Gwŷs am Wasanaeth Rheithgor**' ar dudalen 2

## RHYBUDD

Efallai y bydd rhaid i chi dalu dirwy hyd at **£1,000**:

- Os nad ydych yn ymateb i'r wŷs hon
- Os nad ydych chi'n dod i'r llys i wneud eich gwasanaeth rheithgor heb reswm da
- Os nad ydych chi ar gael i fod yn rheithiwr pan gelwir eich enw
- Os nad ydych chi'n ffit i fod yn rheithiwr oherwydd diod neu gyffuriau.

Mae'r ffurflen hon a llenyddiaeth arall i reithwyr ar gael mewn print bras a Braille ar gais gan y Swyddfa Ganolog Gwysio Rheithgor (manyllion ar dudalen 2).

## SUT I YMATEB I'CH GWŶS AM WASANAETH RHEITHGOR

- Cyn llenwi'r ffurflen **Ymateb i'ch Gwŷs am Wasanaeth Rheithgor (tudalennau 3 a 4)**, darllenwch y daflen **Canllaw i Wŷs Rheithgor** sy'n amgaeedig. Mae'r daflen hon yn esbonio pwy, dan y gyfraith, sy'n cael bod yn rheithiwr neu beidio, ac mae'n cynnwys gwybodaeth a fydd yn eich helpu chi i lenwi'r ffurflen **Ymateb i'ch Gwŷs am Wasanaeth Rheithgor**.
- Darllenwch hefyd y daflen **Lwfansau** amgaeedig, sy'n dweud wrthyfch pa dreuliau y gallwch eu hawlio.
- Bydd y wybodaeth a rowch yn y ffurflen **Ymateb i'ch Gwŷs am Wasanaeth Rheithgor** yn helpu'r Swyddfa Ganolog Gwysio Rheithgor i brosesu eich gwŷs yn fwy effeithlon.
- Rhaid dychwelyd **Tudalennau 3 a 4** - y ffurflen **Ymateb i'ch Gwŷs am Wasanaeth Rheithgor** i'r Swyddfa Ganolog Gwysio Rheithgor yn yr amlen a ddarparwyd cyn pen 7 niwrnod o'r dyddiad y cawsoch y wŷs hon.
- Dylech **dynnu tudalennau 1 a 2 y ffurflen hon yn rhydd a'u cadw'n ddiogel** gan y bydd rhaid i chi ddod â nhw i'r llys ar ddiwrnod cyntaf eich gwasanaeth.

## BETH SY'N DIGWYDD AR ÔL I CHI YMATEB I'CH GWŶS

- Ar ôl i'ch ffurflen gael ei phrosesu, bydd y Swyddfa Ganolog Gwysio Rheithgor yn ysgrifennu atoch yn cadarnhau **dyddiad ac amser eich diwrnod cyntaf** o wasanaeth rheithgor.
- Byddwch hefyd yn cael pecyn cadarnhau sy'n egluro **beth sy'n ddisgwyliedig gennyfch fel rheithiwr**, ynghyd â gwybodaeth am eich Llys lleol.
- Os bydd y Swyddfa Ganolog Gwysio Rheithgor yn penderfynu **na** allwch fod yn rheithiwr ar yr achlysur hwn, byddant hefyd yn ysgrifennu atoch i ddweud hynny.
- Ar ôl eich diwrnod cyntaf o wasanaeth rheithgor, bydd un o swyddogion y llys yn dweud wrthyfch pryd i gyrraedd ar y diwrnodau nesaf o'ch gwasanaeth rheithgor.
- Efallai y bydd angen i reithwyr hefyd wasanaethu mewn achos sifil er nad yw hyn yn digwydd yn aml. Pan ddigwydd hyn, cynhelir y treial fel arfer yn yr Uchel Lys neu lys sirol.

## OS BYDD ANGEN MWY O HELP NEU WYBODAETH ARNOCH

Os bydd angen mwy o help arnoch, ar ôl darllen y daflen **Canllaw i Wŷs Rheithgor**, i lenwi'r ffurflen **Ymateb i'ch Gwŷs am Wasanaeth Rheithgor**, bydd y Swyddfa Ganolog Gwysio Rheithgor yn barod iawn i'ch cynorthwyo. Nodir eu manylion isod.

Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan Direct Gov yn [www.direct.gov.uk](http://www.direct.gov.uk). Hefyd gallwch edrych ar y DVD 'Eich Rôl fel Rheithiwr' yn <http://moj.cojonline.tv/videos/jurorvideo/video>.

## CYSYLLTU Â'R SWYDDFA GANOLOG GWYSIO RHEITHGOR

Mae'r Swyddfa Ganolog Gwysio Rheithgor wedi'i lleoli yn:

SWYDDFA GANOLOG GWYSIO RHEITHGOR/JURY CENTRAL SUMMONING BUREAU  
GLITEM  
FREEPOST LON 19669  
POCOCK STREET  
LLUNDAIN  
SE1 0YG

Ffôn: 0845 803 8003 (Codir cyfradd leol am alwadau) neu 020 7202 6800  
Oriau Swyddfa: rhwng 9am – 5pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener.  
Ffacs: 020 7202 6812 E-bost: [jurysummoning@hmcts.gsi.gov.uk](mailto:jurysummoning@hmcts.gsi.gov.uk)

**Os bydd angen i chi gysylltu â Swyddog Gwysio Rheithgor, gwnewch yn siwr fod eich rhif rheithiwr wrth law rhag ofn y byddant ei angen.**

**Mae'r rhif hwn dan eich enw a'ch cyfeiriad ar dudalen 1 y wŷs hon.**

Cyhoeddwyd ar Dyddiad a 2 ddiwrnod gwaith gan y Swyddfa Ganolog Gwysio Rheithgor gydag awdurdod yr Arglwydd Ganghellor.

## YMATEB I'R WŶS RHEITHGOR

- Darllenwch y ffurflen hon a'r daflen amgaeedig **Canllaw i Wŷs Rheithgor** yn ofalus cyn ei llenwi.
- Efallai y bydd rhaid i chi dalu dirwy os byddwch yn gwrthod rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen i benderfynu a ydych yn gymwys i fod yn rheithiwr ai peidio, neu os byddwch chi'n rhoi gwybodaeth ffug, yn peri i rywun arall roi gwybodaeth ffug neu'n caniatáu iddynt wneud hynny.
- Defnyddiwch inc du neu las yn unig ac ysgrifennwch mewn **LLYTHRENNAU BRAS**.
- Os yw'r ffurflen yn gofyn am wybodaeth, peidiwch ag ysgrifennu y tu allan i'r lle sydd ar gael.
- Ticiwch y blychau priodol. Os byddwch yn gwneud camgymeriad, lliwiwch y blwch, llofnodwch ef â llythrennau cyntaf eich enw, a marciwch y blwch cywir.

## RHAN 1 Amdanoch chi

**A** Rhif Rheithiwr

**B** Mae'r adran hon yn gofyn am fwy o wybodaeth gennych chi.

Teitl	Mr <input type="checkbox"/>	Mrs <input type="checkbox"/>	Miss <input type="checkbox"/>	Ms <input type="checkbox"/>	Arall <input type="checkbox"/>	(rhowch fanylion) <input type="text"/>
Rhif ffôn	Cartref			Gwaith		
<small>Rhowch unrhyw rifau ffôn lle gallwn gysylltu â chi rhwng 9.00am a 5.00pm</small>	<input type="text"/>			<input type="text"/>		
	Symudol			<input type="text"/>		
Dyddiad geni	Diwrnod <input type="text"/>	Mis <input type="text"/>	Blwyddyn <input type="text"/>			

**C** Dim ond os yw eich enw a'ch cyfeiriad yn wahanol i'r rhai sydd ar Dudalen 1 y mae gofyn i chi lenwi'r adran hon. Os yw eich cyfeiriad wedi newid, caiff eich gwasanaeth rheithgor ei drosglwyddo i'r llys agosaf at eich cyfeiriad newydd. Gweler nodyn 6 ar Dudalen 4-5 o'r Canllaw i Wŷs Rheithgor.

Enw Llawn	<input type="text"/>	
<small>Rhowch eich holl enwau</small>		
Cyfeiriad	<input type="text"/>	
<small>Rhowch eich cod post. Bydd hyn yn sicrhau bod llythron o'r llys yn eich cyrraedd yn gyflym</small>		
Cod post:	<input type="text"/>	Cyfeiriad e-bost: <input type="text"/>

PLYGWCH  
A  
DYCHWELYD  
Y FFURFLEN  
YN YR  
AMLEN

**D** Gweler Nodyn 4 ar Dudalen 4 o'r Canllaw i Wŷs Rheithgor. Os ydych yn cael eich cyflogi, neu wedi cael eich cyflogi yn y pum mlynedd diwethaf, gan un o'r Heddluoedd, Gwasanaeth Carchardai EM neu unrhyw awdurdod erlyn, nodwch eich swydd, eich cyflogwr a'ch gweithle. **Efallai y bydd angen i ni gysylltu â chi am hyn.**

Swydd:	<input type="text"/>
Eich cyflogwr:	<input type="text"/>
Gweithle:	<input type="text"/>

## RHAN 2 Ydych chi'n gymwys ar gyfer gwasanaeth rheithgor? Gweler y Canllaw i Wŷs Rheithgor, Nodyn 1, Tudalen 2

- |   |  |                                 |                                       |
|---|--|---------------------------------|---------------------------------------|
| <b>A</b> Fyddwch chi dan 18 oed ar y dyddiad pan ddylech chi ddechrau eich gwasanaeth rheithgor?  | Na <input type="checkbox"/>                  | Byddaf <input type="checkbox"/> | Os <b>Byddwch</b> ewch i <b>Ran 5</b> |
| <b>B</b> Fyddwch chi wedi cyrraedd 70 oed ar y dyddiad pan ddylech chi ddechrau eich gwasanaeth rheithgor?  | Na <input type="checkbox"/>                  | Byddaf <input type="checkbox"/> | Os <b>Byddwch</b> ewch i <b>Ran 5</b> |
| <b>C</b> Ydych chi wedi byw yn y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw am unrhyw gyfnod o 5 mlynedd o leiaf, ers i chi fod yn 13 oed? (Darllenwch nodyn 1 y Canllaw i Wŷs Rheithgor) | Nac ydw <input type="checkbox"/>             | Ydw <input type="checkbox"/>    | Os <b>Na</b> ewch i <b>Ran 5</b>      |
| <b>D</b> Darllenwch y rhestr ym <b>Mluch A</b> y <b>Canllaw i Wŷs Rheithgor</b> Ydych chi ar fechnïaeth?  | Nac ydw <input type="checkbox"/>             | Ydw <input type="checkbox"/>    |                                       |
| <b>E</b> Darllenwch y rhestr ym <b>Mluch A</b> y <b>Canllaw i Wŷs Rheithgor</b> Ydych chi wedi cael eich dyfarnu'n euog o drosedd ac wedi cael dedfryd o'r rhestr hon?                          | Nac ydw <input type="checkbox"/>             | Ydw <input type="checkbox"/>    |                                       |
| <b>F</b> Darllenwch y rhestr ym <b>Mluch B</b> y <b>Canllaw i Wŷs Rheithgor</b> A oes gennych ar hyn o bryd neu a ydych yn y gorffennol wedi cael unrhyw anhwylder neu anabledd meddyliol?      | Nac oes/<br>Nac ydw <input type="checkbox"/> | Ydw <input type="checkbox"/>    |                                       |

Os ydych wedi ateb Ydw i gwestiynau D, E neu F, rhowch y manylion yn y blwch isod ac yna ewch i Ran 5

<input type="text"/>
----------------------

### RHAN 3 Gohirio Dros Dro ac Esgusodi

#### Cyn llenwi'r adran hon, trowch at y Canllaw i Wŷs Rheithgor, Nodyn 2, Tudalen 3.

Hoffech chi wneud cais i ohirio'ch gwasanaeth rheithgor tan yn ddiweddarach, neu wneud cais i gael eich esgusodi o wasanaeth rheithgor?

Gellir **gohirio'ch** gwasanaeth rheithgor am **hyd at 12 mis**, ond dim ond **unwaith** y gellir gohirio. Rhaid i chi ein hysbysu o'r **holl ddyddiadau yr ydych ar gael**. Dim ond os **na allwch** wasanaethu o gwbl yn ystod y 12 mis nesaf y cewch eich **esgusodi** o wasanaeth rheithgor.

Na *Ewch i Ran 4*

Byddwn i'n hoffi gohirio fy ngwasanaeth rheithgor

Byddwn yn hoffi cael fy esgusodi

- Os ydych wedi gwasanaethu yn ystod y 2 flynedd diwethaf ac am gael eich esgusodi yn unol â'ch hawl, nodwch y manylion a'r llys a fynychwyd isod.
- Rhowch gymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl yn y blwch isod i gefnogi eich cais. Defnyddiwch ddalen ar wahân o bapur os oes angen mwy o le arnoch.
- **Ni** fydd y Swyddfa Ganolog Gwysio Rheithgor yn delio â gohebiaeth a anfonir yn uniongyrchol gan drydydd partïon, megis cyflogwyr, ond gellir anfon llythyrau gan drydydd partïon fel tystiolaeth ategol gyda'r ffurflen hon.

#### Esboniwch yn gryno pam eich bod yn dymuno gohirio / cael eich esgusodi

Nodwch yr **HOLL** ddyddiadau pan **fyddwch** ar gael ar gyfer gwasanaeth rheithgor yn ystod y 12 mis nesaf

Ewch i **Ran 4**

### RHAN 4 Anabledd ac Anghenion Arbennig

#### Cyn llenwi'r adran hon, trowch at y Canllaw i Wŷs Rheithgor, Nodyn 5, Tudalen 4.

Oes gennych chi anabledd neu nam? Na  *Ewch i Ran 5* Oes  *Ticiwch un o'r blychau hyn os yw'n briodol.*  
Os ydych wedi ticio Na, ewch i **Ran 5**. *Os ydych, rhowch fanylion yn y blwch mawr isod.*  
Os ydych wedi ticio Oes, yna ticiwch un Nam ar eich golwg  Symudedd cyfyngedig  Nam ar eich clyw  Arall   
Os ydych, rhowch y manylion yn y blwch trefniadau arbennig isod

Dyma'r trefniadau arbennig

Ewch i **Ran 5**

### RHAN 5 Datganiad

#### Cyn llenwi'r adran hon, trowch at y Canllaw i Wŷs Rheithgor, Tudalen 2, dan 'Rhybudd'.

- Rydw i wedi darllen y Gwŷs Rheithgor a'r daflen Canllaw i Wŷs Rheithgor, yn cynnwys y Rhybudd ar dudalen 2. Mae'r wybodaeth a roddwyd gennyf yn wir hyd y gwn i.
- Rydw i'n deall y gall rhywun wirio fy atebion ac y gallwn gael fy erlyn os ydw i wedi rhoi gwybodaeth ffug yn fwriadol.

Llofnod

Dyddiad

Cofiwch dynnu tudalennau 1 a 2 yn rhydd a dod â nhw gyda chi i'r Llys ar eich diwrnod cyntaf.

**AT DDEFNYDD  
Y SWYDDFA'N  
UNIG**

**Esgusodi** caniatwyd  anghymwys ydy   
**/ gohirio** ni chaniatwyd  na

Llythrennau cyntaf:

Dyddiad: